

yr Athro

Addysgu Aelodau Cynulliad am ADY



Mae aelodau UCAC wedi hen arfer ag addysgu plant a phobl ifanc, ac â thrafod gyda rhieni.

Ond daeth cyfle mwy anarferol i dair o aelodau'r undeb ddydd Mawrth, 20 Medi, i rannu eu harbenigedd gydag aelodau'n Cynulliad Cenedlaethol – gan gynnwys y Gweinidog sydd â'r cyfrifoldeb dros Anghenion Dysgu Ychwanegol, sef Alun Davies AC.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gwneud newidiadau pellgyrhaeddol i'r drefn Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae llawer i'w groesawu yn y cynigion – ond mae pryderon yn

ogystal (rhagor o wybodaeth ar dudalen 2).

Pwrpas y digwyddiad yn y Senedd, oedd rhoi cyfle i Aelodau Cynulliad sgwrsio gyda chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i ddeall y sefyllfa o'u safbwynt nhw, i glywed am yr hyn sy'n gweithio'n effeithiol, am yr heriau ac am y pryderon ynghylch y newidiadau posib.

Trefnwyd y digwyddiad gan bedwar undeb ar y cyd, sef ATL, NAHT, UCAC a UCU – a braf oedd gallu cydweithio ar fater o bwys i bob un ohonom.

Gwirio eich manylion arlein: www.ucac.cymru

Mae modd i bob aelod UCAC newid eu manylion cyswllt ar ein gwefan erbyn hyn. Bydd pob aelod wedi derbyn llythyr yn y post gyda chyfarwyddiadau mewngofnodi ynghyd â chyfrinair unigryw.

Os nad ydych wedi derbyn eich manylion mewngofnodi yn y post, cysylltwch â'r swyddfa ar 01970 639 950 neu aelodaeth@ucac.cymru

[parhad o'r dudalen flaen]

Roedd y digwyddiad yn arbennig o lwyddiannus, gyda tua deg o Aelodau Cynulliad yn bresennol, a rhagor wedi anfon aelodau o staff, neu wedi gofyn am gyfarfodydd i drafod y mater dros yr wythnosau i ddod.

Gall y math hyn o ddigwyddiad fod yn wirioneddol effeithiol wrth geisio addysgu'r Aelodau a dylanwadu arnynt - ac yn y pendraw, dylanwadu ar y ddeddfwriaeth.

Diolch yn fawr iawn i **Becca Avci, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Ruth Davies, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr a Nerys Williams, Ysgol Gymraeg Sant Baruc** am roi o'u hamser i rannu barn ac arbenigedd gyda'r sawl fydd yn gwneud penderfyniadau mawr am y drefn Anghenion Dysgu Ychwanegol dros y flwyddyn nesaf.

Bydd ymgyrch UCAC i ddylanwadu ar y ddeddfwriaeth yn parhau. Disgwylir i'r Bil gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, ac i'r broses craffu ddechrau yn y flwyddyn newydd.

Rhagor o wybodaeth:

Papur cyd-undebol yn mynegi pryderon am y newidiadau:

https://www.ucac.cymru/images/PDF/1609_Pryderon_ADY.pdf

Dogfennau ymgynghorol Llywodraeth Cymru – a dadansoddiad o'r ymatebion

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bil-drafft-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru>

Ymateb UCAC i'r ymgynghoriad:

https://www.ucac.cymru/images/Ymatebion/1512_ADY.pdf

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) wedi cyrraedd! Y Fframwaith yw'r cam cyntaf yn y broses ehangach o ddiwygio'r cwricwlwm yn sgil adroddiad Yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol Llyddiannus.

Mae'r Fframwaith yn bodoli ochr yr ochr â phynciau Chyfrifiadureg a TGCh – hynny yw, nid yw'n eu disodli - a'r bwriad yw ei fod yn cyflwyno a datblygu sgiliau digidol ar draws y cwricwlwm, mewn dull digon tebyg i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Cyfnod cychwynnol yw hwn i'r Fframwaith. Mae hynny'n golygu bod y Fframwaith yn gallu parhau i newid yn sgil sylwadau gan athrawon, felly mae'n bwysig iawn cymryd unrhyw gyfle i roi adborth.

Yn ogystal, ni fydd Estyn yn arolygu'r Fframwaith ei hun. Yn hytrach, mi fydd yn parhau i arolygu TGCh ar draws y cwricwlwm. Ond o fis Medi 2016 ymlaen, bydd pob adroddiad arolygu yn cynnwys paragraff ar safonau disgyblion o ran cymhwyso TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae nifer o ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad gan gynnwys:

- Gwefan Dysgu Cymru (ble mae modd gweld fersiwn rhyngweithiol hwylus iawn o'r FfCD, neu ei lawrlwytho fel taenlen):
<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/digital-competence-framework/?lang=cy>
- Hwb:
<http://hwb.wales.gov.uk/search?query=fframwaith%20cymhwysedd%20digidol>

Mae UCAC yn awyddus iawn i gadw golwg ar sut mae'r Fframwaith yn cael ei weithredu, a oes digon o gefnogaeth i athrawon, a sut mae'n effeithio ar aelodau. Felly os oes gennych chi unrhyw sylwadau, neu bryderon, cofiwch gysylltu â ni.

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Gwenno Wyn
Is-Llywydd: Phil Higginson
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cydylynydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidiwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.



Lleihau Llwyth Gwaith a Biwrocratiaeth

Mae UCAC, ar y cyd ag undebau eraill, wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i weithredu i leihau biwrocratiaeth a llwyth gwaith mewn ysgolion a cholegau.

O ganlyniad, mae'r Llywodraeth wedi gweithio gydag ysgolion a cholegau i gasglu gwybodaeth am y gofynion i ddarparu data ac adroddiadau, ac wedi llunio dogfen sy'n eu rhestru.

Y nod yw defnyddio'r ddogfen i adnabod ffyrdd o leihau'r gofynion ac osgoi dyblygu, ac felly i geisio leihau biwrocratiaeth a llwyth gwaith.

Mae'r Llywodraeth yn awyddus iawn i gael barn ar y ddogfen, ac i sicrhau bod y wybodaeth yn gyflawn cyn mynd ati i ddadansoddi.

Felly mae cais i chi edrych ar y ddogfen ac anfon unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau at SchoolsandYoungPeopleWorkforceUnit@Cymru.gsi.gov.uk erbyn dydd Gwener 21 Hydref.

Mae'r ddogfen ar gael fan hyn:

<http://learning.gov.wales/news/sitenews/reducing-bureaucracy/?lang=cy>

Dyma gyfle i gyfrannu at y gwaith o leihau biwrocratiaeth - peidiwch â cholli'r cyfle pwysig hwn!



“Mae addysg yn ddrud ond mae diffyg addysg yn ddrutach.”

Dyma fi, ar fore Mercher 22 Medi, ar y trêrn o Glunderwen i Gaerdydd – a'r rheswm? I gwrdd ag Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn Nhŷ Hywel yn y Bae. Ar y naill law rydw i'n nerfus ond yn gyffrous ar y llaw arall! Doedd dim angen i fi boeni gan y byddwn yn nwylo diogel Elaine a Rebecca.

Profiad newydd i mi oedd cerdded i mewn a chael fy archwilio a sylwi ar yr un pryd bod swyddog diogelwch ag arfau arno i'r dde i mi, a gwên cyn-ddisgybl yn fy nghroesawu wrth y ddesg. Yna awr a chwarter o gyfarfod uniaith Gymraeg gyda'r Gweinidog a thri gwas sifil - dyna hyfryd.

Trafodwyd nifer o bwyntiau pwysig gan gynnwys Ariannu a llwyth gwaith; yn ddi-os, daeth Adroddiad Donaldson o dan y chwyddwydr ac effaith llwyth gwaith ar iechyd corfforol a meddyliol athrawon. Diwygio'r Cwricwlwm a threfniadau asesu oedd pwnc arall a drafodwyd yn ogystal â chynllunio'r gweithlu addysg yn strategol – materion megis datganoli tâl ac amodau gwaith athrawon yn ogystal â Chyngor y Gweithlu Addysg – mynegwyd y pryder bod aelodau'r gweithlu bellach yn cael eu hapwyntio gan y llywodraeth yn hytrach na'u hethol.

Treuliwyd tipyn o amser yn trafod Cymraeg Ail-laith o fewn cyd-destun Miliwn o Siaradwyr erbyn 2050 ac yng ngeiriau Alun Davies AC, yn y ddogfen ymgynghorol, “Un neges yn glir yn y ddogfen hon yw bod angen i ni gyrraedd sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen hollol naturiol o bob agwedd ar fywyd bob dydd... Mae gan bawb ran i'w chwarae, ac rwyf am i bawb gyfrannu.” Gobeithio'n wir.

Mae tri dyfyniad o eiddo'r Gweinidog wedi serio ar y cof:

“Gwell gen i berswadio na gorfodi”

“Mae newid yn gallu bod yn gyfle - mae hefyd yn gallu bod yn fygythiad”

“Mae addysg yn ddrud ond mae diffyg addysg yn ddrutach.”

Ers cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r Athro bydd Swyddogion UCAC wedi cael cyfarfod i godi'r materion uchod gyda Kirsty Williams, yr Ysgrifennydd Addysg, a byddwn yn adrodd yn ôl i aelodau yn fuan.

Ffarwelio â Rolant Wynne, Swyddog Maes y Gogledd

Ar ddiwedd mis Rhagfyr fe fyddwn yn drist iawn i ffarwelio â Rolant Wynne, Swyddog Maes y Gogledd, sydd yn ymddeol ar ôl pum mlynedd yn y rôl. Ymunodd Rolant â staff UCAC yn 2011 yn dilyn gyrfa llwyddiannus iawn fel athro a phennaeth.



Mae wedi rhoi gwasanaeth clodwiw i aelodau UCAC trwy gydol y cyfnod. Fel cynrychiolydd mae'n brwydro'n gadarn dros hawliau aelodau ac yn eu cefnogi'n ddoeth a gofalus. Mae e'n berson deallus iawn, teg ac uchel ei barch sydd yn rhoi gwasanaeth o safon uchel i aelodau. Mae wedi arwain ym maes pensiynau, cyflog ac amodau gwaith, gan gynrychioli UCAC ar Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun Pensiwn Athrawon (*Teachers' Pension Advisory Board*) yn Llundain a pharatoi a cyflwyno tystiolaeth i'r STRB (*School Teachers' Review Body*) yn Llundain, am gyflog ac amodau gwaith athrawon ysgol.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn, fel unigolion a thîm o weithwyr, i gydweithio gyda Rolant, gŵr bonheddig, doeth a galluog iawn, cydweithiwr hynaws sydd wedi dod yn ffrind da i ni gyd. Byddwn yn gweld ei eisiau'n fawr iawn ac rydym yn dymuno'n dda iddo ef a Carys, ei wraig, am ymddeoliad hapus dros ben.

Prosiectau lleihau Llwyth Gwaith - chwilio am syniadau

Mae Llywodraeth Cymru, yn dilyn pwysau gan UCAC ac undebau eraill, yn awyddus i gynnal nifer o brosiectau sy'n arbrofi gyda ffyrdd o leihau biwrocratiaeth a llwyth gwaith diangen mewn ysgolion.

Mae cyllideb fach ar gael (tua £20mil i bob consortiwm rhanbarthol) gyda'r pwyslais yn benodol ar syniadau sy'n dod gan yr ysgolion eu hunain.

Gall y syniadau ddod o unrhyw ysgol, nid yr ysgolion arloesi'n unig. Mae awydd i sicrhau bod rhai o'r prosiectau'n digwydd yn y sector cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ac yn ymwneud â biwrocratiaeth sydd, o bosib, yn deillio o gyfrwng yr addysg.

Os oes gennych chi syniad yr hoffech ei drïo, cysylltwch â Zenny.Saunders@cymru.gsi.gov.uk

Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Ydych chi'n chwilio am adnoddau, gweithgareddau a syniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd? Mae gwefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu'r cymwysterau. Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad diderfyn, rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno ar eich cyfer.

Dyma rai enghreifftiau o adnoddau newydd sydd ar y wefan:



CA4 Drama – Nodiadau testun gosod TGAU

Adnoddau i gefnogi Uned 3, Dehongli Theatr. Mae'r adnoddau ar gyfer athrawon yn cynnig cyflwyniad, gwybodaeth gefndirol ac awgrymiadau o ran addysgu'r testun gosod a ddewiswyd.



CA4 – Bwyd a Maeth – Effaith Coginio ar fwyd

Pum adnodd wedi'u cynllunio i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n gysylltiedig â nodweddion gweithredol, priodweddau swyddogaethol a chemegol cynhwysion er mwyn sicrhau'r canlyniadau cywir.



CA4 – Daeryddiaeth – Dinasoedd Global

Mae'r adnoddau yma yn cefnogi addysgu Daeryddiaeth TGAU CBAC (asesu cyntaf yn 2018). Thema Graidd 2, Syniad Allweddol 2.3. Materion trefol mewn dinasoedd global cyferbyniol sy'n cael sylw yma.



CA5 – Cymraeg Ail iaith – Pecyn llenyddiaeth UG a Safon Uwch

Gwefan i gynorthwyo'r defnyddiwr i astudio llenyddiaeth Cymraeg UG a Safon Uwch. Mae'n cynnwys dwy stori a phum cerdd ynghyd a gwahanol adnoddau i helpu'r defnyddiwr ddysgu am y nodweddion llenyddol. Ariennir gan Lywodraeth Cymru



CA5 – Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg – Thema 1: (UG) Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Ffrangeg ei hiaith

Cyfes o weithgareddau gwranddo, darllen a chyfieithu rhyngweithiol er mwyn cefnogi addysgu a dysgu gyda dosbarth cyfan neu ar gyfer dysgwyr unigol. Rhoddi'r sylw yma i Thema 1 o'r fanyleb newydd.



CA5 – Ffiseg – Opsionau Ffiseg TAG

Mae'r adnodd yma'n cefnogi addysgu pob un o'r 4 dewis sef Ceryntau eiledol, Ffiseg feddygol, Ffiseg chwaraeon ac Egri a'r amgylchedd. Rhoddir sylw i weithgareddau ymarferol perthnasol ym mhob opsiwn.



CA5 – Economeg

Adnoddau i gefnogi addysgu micro a macro economeg. Yn y pecynnau ceir adnoddau i'w defnyddio i ysgogi trafodaeth yn y dosbarth yn ogystal ag adnoddau i ddisgyblion ac mae modd eu defnyddio ar declynnau symudol. Ceir hefyd nodiadau, taflenni gwaith a gweithgareddau y mae modd eu hargraffu.



Dyma rai o'r adnoddau sydd ar y gweill ar hyn o bryd:

- Daeryddiaeth TGAU – Ecosystemau
- Astudiaethau Busnes Lefel Uwch – Uned 3 (Dadansoddi Busnes a Strategaeth) ac Uned 4 (Busnes mewn Byd sy'n Newid)
- Addysg Grefyddol Lefel Uwch – Moeseg ac Iddewiaeth
- ITM Lefel Uwch - Ffilm

Dilynwch adnoddau addysgol CBAC ar [@adnoddau_cbac](https://twitter.com/adnoddau_cbac)

CANLLAW

Cynllunio ariannol annibynnol i athrawon

Ein pwerau yma yn Canllaw yw eich helpu i wneud y penderfyniadau ariannol sydd yn iawn i chi, ac i greu eich Cynllun Datblygu Ariannol Personol.

Meddwl ymdddeol?
Beth am ymdddeoliad cynnar?
Faint o arian fydda i angen ar ôl ymdddeol?
A fydd gen i ddigon o bensiwn i dalu'r billiau?
A fydda i yn gallu cael gwyliau blynyddol?
Mwy o dalpswm a llai o incwm, neu mwy o incwm?

Er mwyn cael atebion i'r cwestiynau hyn, a mwy, trefnwch gyfarfod yn rhad ac am ddim.

Cysylltwch â Dylan Roberts:
36 Y Maes, Caernarfon, Gwynedd LL55 2NN
www.canllaw.co.uk | cynllunio@canllaw.co.uk | 01286 672011